

## 29. Ychwanegu Cyflwyniad i'r Dudalen


### Cyflwyniad

Mae'n bosibl ychwanegu testun mawr (neu fideo) ar frig eich tudalen, gyda phennawd a thestun rhagarweiniol oddi tano.

Tudalen enghreifftiol gyda llun mawr:



Tudalen enghreifftiol gyda fideo:



## Paratoi

Bydd angen i chi gael eich llun neu'ch fideo'n barod cyn dechrau.

Os ydych chi'n cael eich llun o lyfrgell luniau PA

(<http://photolibrary.aber.ac.uk/>) gallwch ddewis '**University Web - normal hero**', ac yna tocio'r llun i gynnwys y rhan fwyaf pwysig/diddorol o'r ffoto. Fel arall bydd angen i chi ddefnyddio offer golygu lluniau (megis Photoshop neu GIMP) i docio'r llun i'r maint cywir (1140 x 585px).

Mae eich llun yn debygol o fod yn fawr (o ran maint y ffeil) felly dylech leihau ei faint trwy ddefnyddio'r offer '**Save for web**' yn Photoshop (neu debyg) i'w gywasgu i faint llai (o dan 200kB).

Ceir rhagor o fanylion am baratoi lluniau ar gyfer eu defnyddio ar y we yn [Nhaflen Wybodaeth 30](#).

Ar gyfer fideo, dylai'r fideo fod wedi'i uwchlwytho i YouTube. Pan fydd eich fideo'n barod, ewch i'r dudalen YouTube ar gyfer eich fideo. Bydd y ddolen hon wedi'i chynnwys yn yr e-bost a gewch pan fydd y fideo'n barod.

## Creu'r Cynnwys

1. Agorwch yr adran yn y CMS lle'r hoffech i'r llun mawr neu'r fideo, a'r testun rhagarweiniol ymddangos.
2. Cliciwch ar y tab **Content**.
3. Cliciwch **Add content** a dewiswch '**Page Intro - Image or Video**'

**Pwysig:** Os nad ydych chi'n gweld y templed cynnwys hwn yn y rhestr, bydd angen i chi [gysylltu â Gwasanaethau Gwybodaeth](#) i ofyn iddynt alluogi'r templed '**Page Intro - Image or Video**'.

4. Dangosir y templed '**Page Intro - Image or Video**':

The screenshot shows the 'Page Intro - Image or Video' template form in a CMS. The form is titled 'Content type : Page Intro - Image or Video' and has tabs for 'General', 'Content', 'Channels', and 'Options'. The 'Content' tab is active. The form contains the following fields and options:

- Name \***: A text input field with the placeholder 'Enter some text'.
- Title**: A larger text input field with the placeholder 'Enter some text'.
- Use Image**: A checkbox labeled 'Yes'.
- Image**: A dashed box with the text 'Drop file here or click to choose' and a cloud icon.
- Video**: A text input field with the placeholder 'Enter some text'.
- Headline**: A text input field with the placeholder 'Enter some text'.
- introduction**: A rich text editor with a toolbar containing options like 'Edit', 'Insert', 'View', 'Format', 'Table', and 'Tools', along with icons for undo, redo, bold, italic, list, link, unlink, image, and link.

5. Rhwch enw i'r darn o gynnwys.
6. Rhwch y prif bennawd ar gyfer y dudalen yn y blwch **Title**.

### I ychwanegu llun mawr:

7. Ticiwch y blwch **Use Image**.

8. Cliciwch ar y blwch **Image** a dewch o hyd i'r llun yr hoffech ei ddefnyddio o'ch cyfrifiadur (dylech fod wedi creu llun 1140 x 585px a'i gywasgu eisoes).

**I ychwanegu fideo:**

9. Edrychwch ar eich fideo ar YouTube a chopiwch ran olaf y cyfeiriad gwe. Bydd y cyfeiriad gwe'n edrych fel hyn:

<https://www.youtube.com/watch?v=AR9vEg7IrEk> – dim ond y cod ar y diwedd sydd ei angen arnoch, ar ôl “?v=” – yn yr achos hwn, y cod fyddai AR9vEg7IrEk.

10. Gludwch y cod hwn i'r blwch **Video**.

**I ychwanegu'r Pennawd a'r Testun Rhagarweiniol:**

11. Teipiwch y testun yr hoffech iddo ymddangos ar y chwith mewn llythrennau italig (o dan y llun) yn y blwch **Headline**.

12. Teipiwch y testun yr hoffech iddo ymddangos ar y dde (heb fod mewn llythrennau italig) yn y blwch **Introduction**.

13. Cliciwch ar **Add** i gadw'r cynnwys.

14. Os oes angen, efallai y bydd rhaid i chi drefnu'r cynnwys yn eich adran er mwyn i'ch Cyflwyniad i'r Dudalen ymddangos ar frig y dudalen. Gweler [Taflen Wybodaeth 8](#) i gael rhagor o wybodaeth am aildrefnu cynnwys.

## Dewisiadau Ychwanegol ar gyfer Defnyddwyr Uwch

Mae'n bosibl cyfuno llun a fideo (trwy glicio ar y botwm chwarae i ddangos y fideo), a chael y pennawd a'r testun rhagarweiniol mewn lled llawn (yn hytrach nag ar y chwith a'r dde) fel y gwelir isod:

The screenshot shows the Aberystwyth University website. The header includes the university logo and navigation links for 'Cymraeg', search, and a menu. The main content area is titled 'Why go to Aberystwyth?' and features a video player with a play button and the text 'Top reasons to study here'. Below the video, there is a paragraph of introductory text: 'There are many good reasons for you to study at Aberystwyth University, also known as "Aber". Here are just a few:'. A list of navigation links is visible on the left side of the page, including 'Courses', 'Accommodation', 'Scholarships', 'Open Days', 'Before You Apply', 'Why University?', 'How to Choose a University', 'Why Aberystwyth?', 'Courses', 'How to choose a course', 'BA, BSc, MA, MSc, PhD - What do they all mean?', 'Fees and Finance', 'Scholarships', 'Accommodation', 'Student Life', 'Study through medium of Welsh', 'Studying Abroad, Working in Industry', 'International Application', 'Attending an Open Day', 'UCAS Exhibitions', and 'Studying in Wales'. A bullet point 'Stunning location' is also visible at the bottom of the page.

Ar waelod y templed **Page Intro - Image or Video** ceir dewisiadau ychwanegol i ganiatáu hyn.

The screenshot shows the configuration form for the 'Page Intro - Image or Video' template. It includes the following options and fields:

- Full Width Text
- Wide Introduction Text
- Use Combined Image and Video
- Yes
- Combined Image: A dashed box with the text 'Drop file here or click to choose' and a trash icon.
- Combined Video: A text input field with the placeholder 'Enter some text'.
- Combined Video Title: A text input field with the placeholder 'Enter some text'.

- **Full Width Text:** ticiwch y blwch ar gyfer '**Full Width Text**' a dewiswch **Wide Introduction Text**.
- **Combined Image and Video:** *Peidiwch â* llenwi unrhyw fanylion am y llun neu'r fideo ar frig y templed. Yn hytrach, sgroliwch i'r gwaelod a llenwch y meysydd canlynol:
  - **Use Combined Image and Video:** ticiwch y blwch
  - **Combined Image:** dewiswch eich llun, y dylech fod wedi'i greu yn y modd yr eglurir uchod.
  - **Combined Video:** gludwch god y fideo, y dylech fod wedi dod o hyd iddo yn y modd yr eglurir uchod.
  - **Combined Video Title:** teipiwch y testun y bydd y defnyddiwr yn ei weld dros y llun, er mwyn iddynt wybod am beth mae'r fideo.